**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**National Assembly for Wales**
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel, Bae Caerdydd CF99 1NA

23 Medi 2016

Annwyl Nick

**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 14 Gorffennaf yn gofyn a yw'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn bwriadu ystyried adroddiad blynyddol y BBC ac a fyddem yn barod i ystyried eu cyfrifon fel rhan o'n gwaith craffu.

Mae'r Pwyllgor yn bwriadu cymryd tystiolaeth gan BBC Cymru fel rhan o'n rhaglen graffu arferol ar bob un o'r prif ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Rydym hefyd wedi gwahodd Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC i gyfarfod yn y dyfodol ac mae wedi cytuno i ddod.

Yn y sesiynau hyn byddwn yn edrych ar bob agwedd ar rôl y darlledwyr o ran darparu rhaglenni yng Nghymru, i Gymru ac am Gymru, yr adnoddau sydd ar gael iddynt i wneud hynny ac a ydynt yn defnyddio'r adnoddau hynny yn ddoeth, gan gynnwys unrhyw faterion yn codi o'u cyfrifon. Er na fyddwn yn edrych ar gyfrifon y BBC yn yr un manylder ag y byddai Swyddfa Archwilio Cymru yn ei wneud, byddant yn sicr yn gefndir pwysig i'n trafodaethau.

Gobeithio bod hyn yn ddefnyddiol

Yn gywir

Bethan Jenkins

**Bethan Jenkins AC**
**Cadeirydd**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddDGCh@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCWLC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCWLC
0300 200 6565